

PWYLLGOR YMDDEOL YN GYNNAR / DILEU SWYDDI

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 10 Ionawr, 2022.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd N.C. Thomas (Cadeirydd); y Cynghorydd G. John (Is-gadeirydd); Cynghorwyr J.E. Charles, P. Drake, K.F. McCaffer ac R.A. Penrose.

713 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd V.J. Bailey.

714 COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Tachwedd, 2021 fel cofnod cywir.

715 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau.

716 GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD –

PENDERFYNWYD – O dan Adran 100A (4) o'r Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol ar y sail ei bod yn debygol o gynnwys datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Rhan 4 o'r Atodlen 12A (fel y'i diwygiwyd) o'r Ddeddf, y cyfeirir at baragraffau perthnasol yr Atodlen mewn cromfachau ar ôl y pennawd munud.

717 PENDERFYNU DISWYDDIAD MEWN PERTHYNAS AG S (RG) (GWYBODAETH EITHRIEDIG – PARAGRAFFAU 12, 13 A 14) –

Rhodddwyd ystyriaeth i'r cais am ddiswyddiad mewn perthynas â'r gweithiwr uchod. Gyda golwg ar yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod, fe gafwyd wedyn

PENDERFYNWYD –

(1) Cymeradwyo taliad diswyddo ar 10 Ionawr, 2022 neu cyn hynny ar sail Cynllun E o Gynllun Ymddeoliad / Diswyddo Cynnar y Cyngor, yn amodol ar Benderfyniad (2) a S yn cydymffurfio â'r weithdrefn osgoi diswyddo.

(2) Os deuir o hyd i gyflogaeth amgen ar gyfer S, bydd yr hysbysiad yn cael ei estyn i gwmpasu unrhyw gyfnod prawf a bydd Penderfyniad (1) yn cael ei ddirymu (ynghyd ag unrhyw daliad diswyddo) os bydd y cyfnod prawf yn llwyddiannus.

(3) Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Rheolwr Gweithredol y Gwasanaethau Cyfreithiol o i gytuno neu beidio â chytuno â PILON (Taliad yn lle Rhybudd) yn ôl yr angen.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Penderfynu ar y cynnig diswyddo o fewn y rheoliadau a chaniatáu ar gyfer digwyddiadau na fydd yn hysbys ar hyn o bryd.

(2) Cynnal cydymffurfiad â pholisïau Adnoddau Dynol y Cyngor fel Osgoi Diswyddo ac Ail-leoli fel sy'n briodol.

(3) Galluogi PILON yn ôl yr angen.